# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-03-10

**Dyddiad: Dydd Mawrth 9 Chwefror 2010**
**Amser: 09.30 - 10.35**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Claire Morris, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol
### Eitem 2

Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru
Ieuan Wyn Jones AC, Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Gill Lambert, Pennaeth Cydraddoldeb, Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon

1.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant

### Eitem 2: Craffu ar waith y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog ar brif ffrydio cydraddoldeb o fewn agenda Cymru'n Un

Papur: EOC(3)-03-10(p1)

2.1 Ymatebodd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog i gwestiynau gan y Pwyllgor

2.2 Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn dilyn cais gan y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch bysiau hygyrch.

Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog i leisio pryderon yr Aelodau ynghylch mynediad i bobl anabl yng ngorsaf rheilffordd Caerdydd.

Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn y cwestiynau sydd yn weddill gan yr Aelodau.

### Eitem 3: Trafodaeth ddilynol ar Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol 2009

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy yn amlinellu canlyniad eu trafodaeth.

### Camau i'w cymryd

Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy.

### Eitem 4: Cwmpasu ymchwiliad nesaf y Pwyllgor - Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffyrdd

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl gan gynnig rhestr o'r ymgyngoreion ar gyfer yr ymchwiliad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**